**Adran Cyfoeth Naturiol**
**Department for Natural Resources**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf:

At: Pob Prif Swyddog Cynllunio

9 Mai 2016

Annwyl cydweithiwr,

**Goblygiadau diwygiadau diweddar i'r Gorchymyn Dosbarthiadau Defnydd o safbwynt Nodyn Cyngor Technegol 1**

Nododd y newidiadau a gafodd eu gwneud i Nodyn Cyngor Technegol 1, *Cyd-astudiaethau Argaeledd Tir ar gyfer Tai* (TAN 1) ym mis Ionawr 2015 fod angen i 'dai' fod o fewn Dosbarth Defnydd C3 Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Dosbarthiadau Defnydd) 1987 er mwyn gallu cael eu cynnwys fel rhan o'r cyflenwad o dir sydd ar gael ar gyfer tai. Caiff hyn ei nodi ym mharagraff 4.3.1 o TAN 1. Eto i gyd, gwnaeth y diwygiad diweddar i'r Gorchymyn Dosbarthiadau Defnydd a ddaeth i rym ar 25 Chwefror 2016 ddiwygio Dosbarth Defnydd C3 yn sgil cyflwyno Dosbarth Defnydd newydd, sef C4, ar gyfer tai amlfeddiannaeth lle y mae rhwng 3 a 6 o bobl yn byw'n annibynnol ar ei gilydd ond yn rhannu amwynderau sylfaenol.

Diben y llythyr hwn yw nodi'n glir fod y diffiniad o 'dai' at ddibenion y cyflenwad o dir sydd ar gael ar gyfer tai (fel y nodir ym mharagraff 4.3.1 o TAN 1) yn cynnwys y Dosbarth C3 diwygiedig a'r Dosbarth C4 newydd, a hynny oherwydd y ffaith yr arferai tai amlfeddiannaeth sy'n ffurfio Dosbarth C4 gael eu cynnwys o dan Ddosbarth C3 ar ei ffurf flaenorol.

Os hoffech ragor o wybodaeth am y mater hwn cysylltwch â Nick Lloyd (Nicholas.Lloyd2@wales.gsi.gov.uk) neu â Paul Robinson (paul.robinson@wales.gsi.gov.uk) yng Nghangen Polisi Cynllunio'r Gyfarwyddiaeth Gynllunio.

Yn gywir,

N. Hemington

**Neil Hemington**
Prif Gynllunydd
Cyfarwyddiaeth Cynllunio
Yr Adran Cyfoeth Naturiol

BUDDSODDWR MEWN POBL
INVESTOR IN PEOPLE

Cyfarwyddiaeth Cynllunio • Planning Directorate
Parc Cathays • Cathays Park
Caerdydd • Cardiff
CF10 3NQ

Welsh Inquiry Line • Llinell Ymholiadau Cymraeg 0845 010 4400
English Inquiry Line• Llinell Ymholiadau Saesneg 0845 010 3300
Planning.Directorate@Cymru.GSI.Gov.UK
Planning.Directorate@Wales.GSI.Gov.UK